

Eisteddfod yr Urdd – 2018

Cystadleuaeth Prif Seremoni Defod Y Coroni Bl.10 a dan 25 oed (395)

BEIRNIADAETH CATRIN BEARD A LLEUCU ROBERTS

Rhaid i ni nodi'n gyffredinol ein bod wedi ein calonogi'n fawr iawn gan safon yr iaith yn y gystadleuaeth hon. Iaith rywiog, gywir yw'r deunydd sylfaenol sy'n rhaid i bob awdur ei gael er mwyn gallu adeiladu ei stori, a braf yw gallu dweud fod pob un o'r ymgeiswyr eleni yn meddu ar adnoddau ieithyddol cadarn.

Martlet

Hanes Cai sydd yma, mab i dad sy'n alcoholig, a brawd i filwr a laddwyd yn Irac. Llwyddodd yr awdur i ddarlunio cymeriad crwn iawn, a dilynwn hanes y bachgen yn troi'n ddyn. Gwelwn effaith camdriniaeth ac yfed y tad ar y mab, a'r ffordd y mae hynny'n gwneud i'r mab ddilyn llwybr erchyll, sy'n annisgwyl ar un ystyr, ac eto, mae'r diwedd yn teimlo bron yn anorfod ar yr un pryd. Llwydda'r awdur i fagu empathi â chymeriad sy'n gwneud rhywbeth ofnadwy. Efallai y gallai fod wedi torri ychydig ar y stori, cyfyngu rhywfaint ar y disgrifiadau o Cai yn tyfu, ond gan gadw'r cydbwysedd rhwng dweud gormod a pheidio â dweud digon i allu esbonio gweithred y prif gymeriad ar y diwedd.